

# SIARTER GWIRFODDOLI IEUENCTID

## A GWEITHREDU CYMDEITHASOL

### YMRWYMIADAU SEFYDLIADOL

Mae'r cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a gwirfoddoli rydym yn eu darparu i bobl ifanc yn cynnwys:

**CYNHWYSIANT:** Rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl ifanc ac yn eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu. Mae ein holl gyfleoedd gwirfoddol ar agor i bobl dros 14 oed, ac iau os yn bosibl, oni bai bod rheswm diogelu clir dros beidio â gwneud hynny. Bydd pob person ifanc yn cael ei drin yn deg drwy gydol eu profiad gyda ni.

**GWOBRRWYO A CHYDNABOD:** Rydym yn cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn dathlu ymrwymiad a chyflawniadau pobl ifanc.

**DYSGU A DATBLYGU:** Rydym yn darparu cwrs cynefino, nodau, hyfforddiant a chymorth priodol fel bod pobl ifanc yn gallu cwblhau eu gweithgareddau, ac yn rhoi adborth rheolaidd fel y gallant fyfyrion ar yr hyn a ddysgwyd a datblygu hyder a sgiliau.

**CYFRANOGIAD IEUENCTID:** Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar y lefel briodol, ac yn cael cyfleoedd i arwain a siapio'r gweithgareddau maen nhw'n cymryd rhan ynddynt. Rydyn ni hefyd yn rhoi llais i bobl ifanc mewn penderfyniadau sefydliadol ehangach.

**AMRYWIAETH A DILYNIANT:** Rydym yn darparu tasgau a phrosiectau amrywiol ar gyfer pobl ifanc, ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dilyniant.

**CYFRANOGIAD GWIRFODDOL:** Mae cyfranogi yn wirfoddol - ni fydd pobl ifanc yn colli neu'n ennill yn ariannol trwy gyfranogi, nac yn teimlo eu bod nhw dan bwysau i gwblhau tasgau sy'n mynd yn erbyn eu credoau, yn afrealistig, neu y tu hwnt i gwmpas eu rôl. Er y gall rhai cyfleoedd a gynigiwn fod yn rhannau gorfodol o gymwysterau, ni fyddwn yn cymryd mantais o wirfoddolwyr trwy greu interniaethau di-dâl yn lle rolau staff.

**EFFAITH AR Y GYMUNED:** Bydd pobl ifanc yn deall budd clir eu rôl i gymuned, achos neu broblem gymdeithasol.

**HYBLYGRWYDD:** Rydym yn cynnig hyblygrwydd trwy ddatblygu rolau gydag unigolion yn ôl eu cymhellion, eu hargaeledd a'u hanghenion. Rydym yn cynnig tasgau sy'n heriol ac yn uchelgeisiol, ac sy'n bleserus hefyd.

**DIOGELEDD A DIOGELWCH:** Byddwn yn edrych ar ôl pobl ifanc tra maen nhw gyda ni. Byddwn yn darparu yswiriant, asesiadau risg a mesurau diogelu priodol ar eu cyfer.

**PARTNERIAETH:** Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i wella ein harfer ein hunain, ac yn gwneud cysylltiadau ystyrlon i gyfleoedd eraill i bobl ifanc. Mewn achos ble rydym yn hwyluso gweithredu cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc mewn sefydliadau eraill (er enghraifft, eu hysgol neu glwb ieuencid), byddwn yn hyrwyddo'r egwyddorion uchod gyda sefydliadau partner.



## DIFFINIADAU

### Gweithredu cymdeithasol

Mae pobl ifanc ar draws Cymru yn gwneud llawer o bethau gwahanol sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Maen nhw'n helpu cymdogion, yn arwyddo deisebau, yn codi arian ar gyfer elusen, yn gwirfoddoli a llawer mwy. Gellir galw'r holl fathau hyn o weithgarwch yn weithredu cymdeithasol. Mae gweithredu cymdeithasol yn categori eang iawn sy'n cynnwys unrhyw **gamau ymarferol** mewn **gwasanaethu pobl eraill** i greu **newid cadarnhaol**.

### Gwirfoddoli

Un math pwysig o weithredu cymdeithasol ydy gwirfoddoli. Mae gwirfoddoli'n **ymrwymo amser ac egni** er **budd cymdeithas** ac / neu eu cymuned a'u hunain, a gallant gymryd nifer o ffurfiau. Mae pobl yn gwirfoddoli o'u **gwirfodd a thrwy ddewis**, heb bryderu am elw ariannol.

Datblygwyd y siarter hon gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru ar ran WCVA i'r trydydd sector yng Nghymru. Fe'i datblygwyd ar sail barn pobl ifanc a rhanddeiliaid gwirfoddolwyr ifanc yng Nghymru ac mae'n adeiladu ar naw egwyddor allweddol yr hen fenter Gwirfoddolwyr y Mileniwm a oedd yn cydnabod ac yn gwobrwyo gwirfoddolwyr ifanc, a chwe egwyddor ymgyrch #byddaf sydd ar waith ledled Prydain i hybu gweithredu cymdeithasol ymysg ieuencid.

## RYDYM YN DISGWYL I'N GWIRFODDOLWYR:

- ✓ Wneud ymrwymiad personol sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau unigol
- ✓ Gytuno ar ddisgwyliadau gyda ni ynghylch eu rôl ac ymddygiadau derbyniol
- ✓ Gefnogi ein hymrwymiad i gynhwysiant
- ✓ Gyfathrebu'n onest am newidiadau mewn amgylchiadau, ac wrth roi adborth am eu profiad
- ✓ Gefnogi cyfranogiad a bod yn gyfrifol am y rheiny maen nhw'n eu cynnwys yn eu gweithgareddau
- ✓ Gymryd rhan gadarnhaol mewn sesiynau cynefino, hyfforddiant, cymorth ac adborth
- ✓ Weithredu o fewn y polisiau, y gweithdrefnau a'r canllawiau sydd yn cael eu darparu gennym ni

